OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2197

## Rheoliadau Tir Halogedig(Cymru) 2001

**Llygru dyfroedd a reolir**

**3.** At ddibenion rheoliad 2(1)(a), mae'r rheoliad hwn yn gymwys i dir—

(a) pan fydd y tir(**1**) yn effeithio ar ddyfroedd a reolir sy'n cael eu defnyddio, neu y bwriedir eu defnyddio, i gyflenwi dŵ r i bobl ei yfed a phan fydd angen defnyddio proses, o'r herwydd, i'w trin neu newid y broses honno cyn i'r dyfroedd gael eu defnyddio, er mwyn iddynt gael eu hystyried yn ddyfroedd iachusol o fewn ystyr Rhan III o Ddeddf y Diwydiant Dŵ r 1991 (y cyflenwad dŵ r)(**2**));

(b) pan fydd y tir yn effeithio ar ddyfroedd a reolir ac, o'r herwydd, nad yw'r dyfroedd hynny yn bodloni neu nad ydynt yn debygol o fodloni'r maen prawf ar gyfer y dosbarthiad sy'n gymwys i'r disgrifiad perthnasol o ddyfroedd a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 82 o Ddeddf Adnoddau Dŵ r 1991 (dosbarthu ansawdd dyfroedd)(**3**); neu

(c) pan fydd y tir yn effeithio ar ddyfroedd a reolir ac—

(i) pan fydd unrhyw un o'r sylweddau y mae llygru'r dyfroedd yn cael ei achosi ganddynt neu'n debygol o gael ei achosi ganddynt yn dod o fewn unrhyw un o'r teuluoedd neu'r grwpiau o sylweddau a restrir ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn; a

(ii) pan fydd y dyfroedd, neu unrhyw ran o'r dyfroedd, yn cael eu cynnwys o fewn strata tanddaearol sy'n cynnwys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, unrhyw un o'r ffurfiadau creigiau a restrir ym mharagraff 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) Gweler adran 78A(8) ar gyfer ystyr "affected by".
(**2**) 1991 p.56.
(**3**) 1991 p.57.